# Gwneud Cynnig i CCB

Os ydych yn dymuno cynnig menter ymgyrchu newydd,  ychwanegu rhywbeth at y llyfr polisi neu unrhyw beth arall sy'n gysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr, ffordd o wneud hynny yw cyflwyno cynnig i'r CCB.

**Rhaid i gynnig ddilyn ffurf benodol:**

**Teitl y Cynnig**

**Noda'r CCB**
1. Mae'r adran hon, ar ddechrau cynnig, yn nodi'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd.
2. Rhaid ei ysgrifennu mewn ffordd glir a chryno, gan nodi'r wybodaeth berthnasol a allai fod yn gysylltiedig â rhannau penodol o'r cyfansoddiad/ddogfen lywodraethu/polisi'r Brifysgol neu'r Undeb.

**Creda'r CCB**
1. Mae'r adran hon yn nodi pam fod y CCB yn credu bod yr wybodaeth uchod angen cefnogi'r cynnig.
2. Ar y cam hwn, gellir defnyddio unrhyw ffaith neu ffigwr i gefnogi'r cynnig.
3. Hefyd, mae'n bosib gwahanu'r adran yn ddwy: 'Creda'r CCB' a 'Creda'r CCB ymhellach' os oes dau duedd i'r cynnig.

**Penderfyna'r CCB**
1. Mae'r adran hon yn eich galluogi i nodi'r newidiadau rydych eu hangen/heisiau i wneud polisi neu adran benodol o'r cyfansoddiad/ymgyrch.
2. Dylid rhestru'r holl ganlyniadau a gweithredoedd a ddisgwylir. Bydd cynnwys manylion, os oes pobl benodol sydd eu hangen i wneud pethau penodol, yn dda.

Cynigiwyd gan: *Eich enw*
Eiliwyd gan: *Enw'r unigolion (gallant fod yn unrhyw fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd)*

Gweler enghraifft o gynnig ar y dudalen

nesaf. **Siarad yn y cyfarfod**:

Fel cynigydd y cynnig bydd gofyn i chi siarad o blaid eich cynnig yn y cyfarfod. Am 4 munud neu lai. Wedi hynny, bydd y Cadeirydd yn gofyn a oes unrhyw un am siarad yn erbyn eich cynnig. Pe dymunent, cânt 4 munud hefyd.

Unwaith y gwnaed areithiau o blaid ac yn erbyn, byddwn yn symud at drafodaeth gyffredinol ynglŷn â'r cynnig cyn cynnal pleidlais.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â chynigion, neu'r cyfarfod yn gyffredinol, cysylltwch â ni!
E-bost: agm@caerdydd.ac.uk

# Cynnig enghreifftiol:

## Polisi Hedfan Domestig

**Noda'r CCB:**

1. Ar hyn o bryd, mae hedfan yn cyfrif am 13% o gyfraniad y DU at newid hinsawdd
2. Hedfan yw'r achos gollyngiadau CO2 sy'n tyfu fwyaf yn y DU
3. Mae hedfan domestig yn llawer llai effeithlon o ran tanwydd na theithiau hir.
4. Mae teithio ar drên a bws yn fwy cydnaws â'r amgylchedd
5. Mae pwynt C.136 yn llawlyfr Gwobrau Sound Impact yn gofyn am bolisi gweithredol i atal hedfan domestig.

**Creda'r CCB**

1. Mae gan yr Undeb ddyletswydd i weithredu'n gyfrifol ynghylch materion amgylcheddol
2. Mae gan y diwydiant awyrennau effaith niweidiol ar yr amgylchedd
3. Dylwn ni gydymffurfio â holl ganllawiau'r Gwobrau Sound Impact

**Penderfyna'r CCB**

1. Gwahardd holl staff a grwpiau myfyrwyr rhag hedfan o fewn y DU.

Cynigiwyd gan: Jane Doe
Eiliwyd gan: Joe Blog